**Cymdeithas Cyryglau a Physgotwyr Rhwydi Caerfyrddin**

**Casgliad y Werin Cymru**
**People's Collection Wales**

# Cwrwgl Caerfyrddin

Awduron: Andy Edwards, Prif wirfoddolwr y project, Cymdeithas Cyryglau a Physgotwyr Rhwydi Caerfyrddin, a Chasgliad y Werin Cymru.

Mae sgiliau a thraddodiadau pysgota cwrwgl yng Nghaerfyrddin wedi'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.

Yn y gwyll fe welwch chi'r chwilod o gychod yn dechrau ymgynnull ar ymyl y dŵr. Gellir gweld cysgodion rhithiol yn llithro'n dawel ar hyd yr Afon Tywi yn yr hwyrnos.

Mae pâr o gyryglau gyda rhwyd rhyngddyn nhw'n arnofio gyda'r llanw. O'r dyfroedd tywyll mae eog a brithyll môr yn cael eu dal yng ngwe'r cyryglau.

Mae'r pysgotwyr cyryglau'n cynnal y traddodiad hynafol. Mae eu diwylliant yn nwfn yn ysbryd y Cymry ond mae'n ffordd o fyw sy'n marw wrth i'r stoc pysgota ddirywio a phwysau bywyd modern gynyddu. Mae nifer y parau sy'n gweithio wedi lleihau a'r traddodiad hynafol yn diflannu.

Darganfyddwch arferion hen deuluoedd cyryglau Caerfyrddin, y ffordd o fyw, y mythau a'r chwedlau sy'n gysylltiedig â nhw, ac ofergoelion yr afon. Treiddiwch i fyd traddodiadol a helpu i gadw diwylliant hynafol yn fyw.

## Dolenni cwricwlwm

**Cam Cynnydd 3:** Y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, Y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Fframwaith cymhwysedd digidol (Dinasyddiaeth, Rhyngweithio a chydweithio), Drama, Hanes, Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth, Dinasyddiaeth Fyd-eang

## Nodiadau athrawon

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys 10 adran y gellir eu defnyddio fel taflenni ffeithiau ar gyfer eich disgyblion. Mae pob adran yn cynnwys rhagor o gynnwys sydd ar gael ar Casgliad y Werin Cymru. Mae Adran 1 yn cynnwys linc i fideo a gynhyrchwyd ar gyfer y project hwn, ac mae Adran 6 yn cynnwys linc i fideos o gyryglwyr yn siarad am fywyd ar y cyryglau.

Isod, ceir awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau trawsgwricwlaidd a chwestiynau'n seiliedig ar y taflenni ffeithiau:

**Adran 1. Cwrwgl Caerfyrddin**

- **Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang:** Ymchwiliwch i bysgota mewn afon neu ar yr arfordir yn agos at eich ysgol. Pa ddulliau pysgota sy'n cael eu defnyddio heddiw? Pa rai a ddefnyddiwyd yn y gorffennol? A oes unrhyw ddulliau pysgota traddodiadol yn dal i gael eu defnyddio yn eich ardal? Pam mae dulliau pysgota wedi newid?
- **Fframwaith Cymhwysedd Digidol:** Ar gyfer unrhyw agwedd ar-lein o'ch ymchwil, crëwch ofod ble gall disgyblion gadw gwybodaeth ddefnyddiol yn ddigidol yn cynnwys hyperddolenni (*2.3 Storio a rhannu*) a gofynnwch iddynt nodi eu ffynonellau ar-lein yn gywir (*1.3 Hawliau, trwyddedu a pherchnogaeth ddigidol).*
- **Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang:** At ba ddibenion eraill y defnyddir afonydd a'r môr a allai ddod ag arian i ardal neu fudd i bobl leol?
- **Daearyddiaeth:** Crëwch fap o afonydd/arfordir/dyfrffyrdd eich ardal.

**Adran 2. Cwrwgl drwy'r oesoedd**

- **Hanes:** Lluniwch linell amser i ddangos y defnydd o gyryglau yng Nghymru. Rhowch y Rhufeiniaid yng Nghymru ar y llinell amser.
- **Hanes:** Pa dystiolaeth sydd gennym o gyryglau yng Nghymru? (Tystiolaeth ysgrifenedig, straeon wedi'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth mewn teuluoedd ac ati).
- **Hanes, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang:** Ymchwiliwch i weld ble mae cyryglau, neu gychod crwn tebyg a wneir â llaw, yn cael eu gwneud mewn rhannau eraill o'r byd.

**Adran 3. Adeiladu cwrwgl**

- **Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg:** gweithgaredd - gwneud modelau o gychod. Beth sy'n helpu cwch i arnofio? Oes rhaid iddo fod yn siâp cwch? Gwnewch arbrofion yn y dosbarth gyda gwahanol wrthrychau i weld beth sy'n arnofio. Pa ddeunyddiau sy'n arnofio orau (papur, pren, metel, plastig)? Cynlluniwch, adeiladwch a phrofwch eich cwch eich hun.

**Adran 4. Rhwyd y cwrwgl**

- **Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, Gwyddoniaeth:** Pam ydych chi'n meddwl bod cyryglwyr modern yn defnyddio deunyddiau gwahanol heddiw i'r gorffennol?
- **Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang:** Heddiw, mae niferoedd y pysgod sy'n cael eu dal yn cael eu rheoli'n gaeth ac mae'n rhaid i'r cyryglwyr gael trwydded i bysgota. Pam hynny? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn wir yn y gorffennol?
- **Gwyddoniaeth:** Mae'r daflen ffeithiau'n sôn am linyn plymen. Pwysau yw hwn sy'n cael ei atodi i ochr y rhwyd bysgota. Mae'n helpu un ochr y rhwyd i ddisgyn i waelod yr afon. Math o fetel yw plwm. Pam ydych chi'n meddwl bod plwm yn cael ei ddefnyddio fel pwysau yn y 'llinyn plymen'? Pa rinweddau sydd gan blwm sy'n ei wneud yn bwysau da?
- **Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol:** Gan ddefnyddio'r disgrifiadau yn yr adnodd hwn, allwch chi actio sut beth fyddai pysgota gan ddefnyddio pâr o gyryglau? Gallai disgyblion chwilio am gerddoriaeth wedi'i hysbrydoli gan ddŵr i gyd-fynd â hyn. Neu wneud eu hofferynnau eu hunain a chreu eu cerddoriaeth eu hunain.

**Adran 5. Cylch bywyd pysgod**

- **Gwyddoniaeth:** Archwiliwch gylch bywyd eog a brithyll môr. Gallai disgyblion dynnu eu diagram eu hunain i gynrychioli'r cylch bywyd.

**Adran 6 & 7. Bywyd a diwylliant & Mythau a chwedlau**

- **Hanes, Daearyddiaeth:** Ymchwiliwch i'r cysylltiadau rhwng Cymru a chwedlau'r Brenin Arthur a Myrddin. Crëwch fap Cymreig o lefydd sy'n gysylltiedig â'r chwedlau.
- **Llythrennedd (darllen ac ysgrifennu):** Mae'r adnodd hwn yn rhoi llawer o gyfleoedd i ddarllen ac ysgrifennu'n greadigol. Gallai disgyblion ymchwilio, darllen ac ailadrodd chwedlau Cymreig, ysgrifennu eu straeon, mythau a chwedlau eu hunain, neu ysgrifennu straeon neu gerddi sydd wedi'u hysbrydoli gan ddŵr.

**Adran 8. Teuluoedd o gyryglwyr**

- **Hanes, Llythrennedd (ysgrifennu a llafar):** Gallai disgyblion ymchwilio a thynnu llun tair cenhedlaeth o'u coeden deulu eu hunain, sy'n cynnwys eu hunain ac unrhyw frodyr a chwiorydd, yna rhieni a neiniau a theidiau. Gallent gyfweld eu rhieni a'u neiniau a'u teidiau i weld beth oedd eu gwaith/swyddi/proffesiynau ac ychwanegu hyn i'r goeden deulu.

**Adran 9. Straeon Cyryglau**

- **Hanes, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang:** Ymchwiliwch i hanes Terfysgoedd Beca, gan gysylltu â bywydau bob dydd pobl dlawd a chyfoethog yn

yr 19eg Ganrif. Mae adnoddau CA2 ar gael ar Hwb. Cysylltwch â bywyd heddiw yn y DU drwy drafod yr isafswm cyflog/cyflog gweithio ac amodau gweithio gwael.

**Adran 10. Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Gaerfyrddin**

- **Addysg Bersonol a Chymdeithasol:** Mae diogelwch ger y dŵr yn bwysig i bob plentyn. Oes yna grŵp lleol, tebyg i Bartneriaeth Diogelwch Dŵr Caerfyrddin, a allai ddod a chynnal sesiwn diogelwch dŵr yn eich ysgol?

## 1. Cwrwgl Caerfyrddin

Y cwrwgl yw un o'r cychod symlaf a mwyaf rhyfedd ei olwg a gynlluniwyd erioed i'w ddefnyddio ar ein hafonydd.

Mae pysgota cwrwgl yn un o draddodiadau hynaf Prydain. Mae'n ddull pysgota traddodiadol Cymreig hynafol **hynod o fedrus.** Mae'r cychod bach siâp basged yn cael eu gwneud gan bysgotwyr medrus gan ddefnyddio coed ynn a helyg.

Mae dau bysgotwr yn gweithio mewn cytgord perffaith. Gan bysgota yn y nos i osgoi taflu cysgodion dros y dŵr, maent yn aros yn llonydd ac yn dal rhwyd rhyngddyn nhw'n barod i ddal y pysgod.

Yn ystod y 18fed a'r 19eg Ganrif pysgota cwrwgl oedd y brif ffynhonnell incwm i deuluoedd tlawd a oedd yn byw ar lannau'r afon Tywi. Roedd 200 o gyryglau ar yr afon 'slawer dydd. Yn ystod blynyddoedd olaf y 1930au cyfyngwyd nifer y trwyddedau rhwydi i 12.

Mae pysgota cwrwgl wedi trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth ac mae'n dal i ddigwydd ar yr afon.

Cyryglau Caerfyrddin - Y Dynion Cwrwgl Olaf fideo prosiect



## 2. Cwrwgl drwy'r oesoedd



**Ers pryd mae cyryglau wedi bod ym Mhrydain?**

Mae'r cwrwgl yn dyddio yn ôl dros 2000 o flynyddoedd, i'r adeg cyn y Rhufeiniaid, ac wedi'i ddefnyddio gan bobl oedd yn hela a chasglu ers canrifoedd lawer.

Gwelodd y Rhufeiniaid gyryglau pan wnaethant oresgyn Prydain yn 55 CC. Ysgrifennodd Iŵl Cesar gan nodi cryn dipyn o fanylion am gychod wedi'u gorchuddio â chroen a welodd wrth deithio'r arfordir.

Un o gerddi hynaf y Gymraeg yw ***Y Gododdin*** a ysgrifennwyd gan Aneirin yn y **7fed Ganrif.** Mae'r gerdd yn cynnwys hwiangerdd o'r enw ***Pais Dinogad:*** mae mam yn dweud wrth ei mab, Dinogad, am sgiliau hela ei dad:

*'ef lledi bysc yng corwc mal ban llad, llew llywywg.'*

*(byddai'n lladd pysgodyn yn ei gwrwgl, fel mae llew yn lladd anifail)*

Yn yr oesoedd canol, mae **cyfraith Cymru** yn dweud bod cwrgwl yn werth **wyth geiniog:**

*‘corwc wyth keinhawc kyfreith’*

Mae’r disgrifiad clir cyntaf o’r cwrwgl afon Cymreig go iawn yn ymddangos yng ngwaith **Gerallt Cymro** a aeth ar daith drwy Gymru gydag Archesgob Caergaint ym **1188** i recriwtio dynion ar gyfer y **Drydedd Groesgad.** Ysgrifennodd:

*‘To fish or cross streams, they use boats made of willow, not oblong nor pointed at either end, but almost circular or rather in the form of a triangle, covered without but not within with raw hides.*

*When a salmon thrown into one of these boats strikes it fiercely with its tail, it often oversets it and endangers both vessel and boatman.*

*In a clumsy manner, in going to or coming from the river, the fishermen carry these boats on their shoulders.’*

Cwrwgl drwy’r oesoedd – cynnwys pellach

## 3. Adeiladu cwrwgl




Mae rhai cyryglwyr modern yn dal i adeiladu eu cyryglau gan ddefnyddio ddulliau traddodiadol a defnyddio coed llarwydd, ynn a helyg. Ond mae'r rhan fwyaf o gyryglau a welir ar yr afon heddiw wedi'u gwneud o wydr ffeibr.

Mae'r diagram nesaf yn dangos rhannau o gwrwgl wedi'u labelu gyda'r enwau Cymraeg traddodiadol o Sir Gaerfyrddin.

Adeiladu cwrwgl – cynnwys pellach

# Y Corwg




**Yr Ise Hir** - Ffyn hir i fynd o'r pen uchaf i'r gwaelod a'u plethu i mewn ac allan o'r darnau ar draws.

**Y Blethwaith / Y Gwall** – gwehyddiad yr helyg sy'n mynd o amgylch y cwrwgl ag yn gweithredu fel gynwal.

**Y Croen** – Croen y cwrwgl, a arferai gael ei wneud o groen anifeiliaid ond nawr o wlanen neu wydr ffeibr a'i orchuddio mewn tar.

**Yr Ise Croes** – darnau o bren wedi'u croesi sy'n cael eu plethu i mewn ac allan o'r darnau hirach.

**Y Goron** – coron y cwch, lle mae'r ffyn yn croesi – rhan gryfaf y cwch.

**Y Fferiad** – y ffon daro. Mae'n cael ei defnyddio i daro'r pysgod ar ôl eu dal.

**Y Sedd** – sedd y cwrwgl. Mae ganddo bwrpas arall: mae'r **Astell Orlais** yn ffurfio'r bocs y tu ôl i'r sedd a dyma lle mae'r pysgod yn cael eu cadw.

**Y Ffiol** – cafn i gael dŵr allan o'r cwrwgl a gedwir yn yr **Astell Orlais.**

## 4. Rhwyd y cwrwgl

Yn draddodiadol, defnyddiwyd cynffonau gwartheg i wneud y rhwydi. Byddai cyryglwyr yn mynd i'r lladd-dy i gael y cynffonnau ac i lifio cyrn y gwartheg. Roedd y blew a'r cyrn a ddeuai o'r lladd-dy wedi'u gorchuddio mewn baw a gwaed.

Heddiw, mae cyryglwyr modern yn defnyddio rhaff neilon gwneuthuredig. Mae'r rhwyd yn 40 troedfedd pan fydd wedi'i hymestyn. Maen nhw'n pysgota mewn hanner cylch, ac mae'r bwa'n golygu'n bod y cyryglau 25 troedfedd oddi wrth ei gilydd. Mae'r rhwyd yn agor fel pwrs gyda'i cheg yn dair troedfedd ar y mwyaf pan fydd wedi ymestyn.


Maen nhw'n rhwyfo gydag **un llaw**, gan lusgo'r rhwyd gyda'r llall, a'i thynnu i lawr yr afon i ddal y pysgod.

Pan mae pysgodyn yn cael ei ddal, mae'r ddau gwrwglwr yn tynnu pen y rhwyd nes bod y ddau gwch yn cyffwrdd, ac mae'r pysgodyn yn cael ei ddal, gan ddefnyddio **fferiad** (bloc bach o bren) i daro'r pysgodyn.

Mae nifer y pysgod sy'n cael eu dal yn cael eu rheoli'n gaeth. Mae pob pysgodyn yn cael ei **dagio** a gellir ei olrhain.

Mae gan y rhwyd linyn plymen sy'n cynnwys dilyniant cymhleth o **80 o ddarnau**. Gall un darn o blwm yn ormod neu rhy ychydig olygu'r gwahaniaeth rhwng dal pysgod neu beidio.

Rhwyd y cwrwgl – cynnwys pellach



## 5. Cylch bywyd pysgod

Mae yna ddau bysgodyn mae cyryglwyr Caerfyrddin yn eu dal yn aml yn yr Afon Tywi: **eog** a **brithyll y môr (sewin).**


Mae'r eog yn crwydro'r cefnforoedd ac yn bwydo ar cril yn y cefnforoedd dwfn. Mae **brithyll y môr**, a elwir yn **sewin** hefyd, yn bysgodyn arfordirol. Nid yw ei gnawd mor goch â'r eog.

Mae'r eog a brithyll y môr yn dychwelyd i'r afonydd ble y gwnaethon nhw ddeor o wyau i fagu. Maen nhw'n teithio i fyny'r afon o'r môr.

Pan fydd yn barod i silio mae'r eog neu'r brithyll môr benywaidd yn dewis lleoliad lle mae'r dŵr yn llifo dros raean glân. Mae'n creu twll yn y graean, a elwir yn **gladd**, drwy broses balu gyda'i chynffon. Mae'n rhyddhau ei hwyau i nyth yn y cladd ac mae'r gwryw'n ffrwythloni'r wyau.

Mae'r wyau'n datblygu ac yn deor yn **aelfinau.** Maen nhw'n tyfu i fod yn frithyll neu'n eog **mân**. Tua'r adeg hon mae'r pysgod ifanc yn ymddangos o'r graean ac yn dechrau fforio am fwyd yn yr afon lle y gwnaethon nhw ddeor.

Pan maen nhw'n gadael y lleoliad deor maen nhw'n cael eu galw'n **leisiaid**. Mae'r pysgod ifanc hyn yn amddiffyn eu tiriogaethau yn awr ac yn datblygu gorsafoedd bwydo.




Cylch Bywyd yr Eog: Gwaith celf gwreiddiol ar gyfer project Cyryglau Caerfyrddin gan yr artist Jeff Phillips yn 2019.

Pan fydd y pysgod wedi cyrraedd maint penodol, sy'n cymryd rhwng dwy a phum mlynedd, maen nhw'n colli eu marciau **gleisiaid.** Mae brithyll y môr a'r eog yn cael eu galw'n **wyniaid haf** pan fo hyn yn digwydd, a'u cyrff yn troi'n arian.

Mae'r **gwyniaid haf** yn symud i lawr yr afon i baratoi i nofio i'r môr. Mae'r pellter mae pysgod yn ei deithio'n gallu amrywio'n fawr. Bydd pysgodyn llawndwf yn dychwelyd i silio yn yr un afon ag y cafodd ei ddeor.

Cylch bywyd pysgod – cynnwys pellach

## 6. Bywyd a diwylliant




Mae rhai o'r seremonïau wedi diflannu'n ddiweddar ond yn dal i gael eu cofio.

Un enghraifft yw **Coroni** prentis o gwrwglwr pan fyddai'n cael ei ystyried yn rhwydwr medrus. Os nad oeddech chi'n perthyn i un o hen deuluoedd traddodiadol y cyryglwyr, roeddech chi'n cael eich galw'n **ddieithryn**, ac roedd yn rhaid i chi gael eich coroni.

Byddai grŵp o gyryglwyr yn gosod blaen eu rhwyfau ar ei ben. Byddai cyryglwr hynaf y grŵp yn dod â'i rwyf i lawr, yn galed ar ei ben gan ddweud, **"Coda, rwyt ti wedi dy goroni".**

**Llosgi Cyryglau** – pan fyddai pysgotwr yn marw, byddai ei gwrwgl yn cael ei losgi ar lannau'r afon Tywi y noson cyn ei **angladd**. Yn draddodiadol, dim ond ar ôl i'r dynion glywed cân y **dylluan** y byddai'n cael ei gynnau. Y gred oedd bod yr aderyn yn tywys y meirw i'r nefoedd. Mae'n debyg mai'r arfer oedd llosgi corff y pysgotwr gyda'i gwrwgl gannoedd o flynyddoedd yn ôl.

Nid oes llawer yn gwybod bod cymuned y cyryglwyr yn defnyddio'u geirfa Gymraeg eu hunain wrth siarad am gyryglau. Mae'n debyg bod y geiriau hyn yn deillio o eiriau Cymraeg yr oesedd canol.

Mae'r geiriau hyn wedi'u defnyddio ar yr Afon Tywi ers cannoedd o flynyddoedd ac yn dal i gael eu defnyddio heddiw. Cymraeg cyfrinachol sy'n cael ei defnyddio a'i deall gan gymuned fechan o Gyryglwyr Caerfyrddin yn unig.

Mae ganddyn nhw eu henwau eu hunain am y pysgod maen nhw'n eu dal:

**Ginyn** – Eog 7lb neu lai
**Gemyn** – Eog gwrywaidd sy'n barod i baru
**Eogyn** – Eog dros 7lb
**Gwencyn** – Sewin dros 3lb
**Twlpyn** – Sewin 1 ½ - 3lb
**Shiglyn** – Sewin 1 ½ lb neu lai
**Lloro** – Eog neu Sewin ar ôl silio

Roedd enwau llefydd yn bwysig er mwyn cadw llefydd pysgota da yn gyfrinachol: Y Bwtri, Pwll Du, Shutters Gate, Cook's Bank, Gweli Tomos a Phwll Ancw.

Yn y 18fed ganrif, y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, roedd llawer o deuluoedd cyryglau'n byw yn Dan-y-banc ar waelod Rhiw Jâl. Roedd y teuluoedd hyn yn byw oddi ar yr afon. Roedd hi'n ardal dlawd o'r dref, a'r teuluoedd yn dibynnu'n fawr ar ddal pysgod.

Heddiw, pedwar pâr o gyryglau sy'n gweithio'r afon. Mae eu tymor yn dechrau ar **1 Ebrill** ac yn gorffen ar **31 Gorffennaf.** Mae'r tymor wedi'i fyrhau oherwydd y gostyngiad yn nifer y pysgod.

Mae yna gyryglwyr sy'n dibynnu ar bysgota fel incwm. Maen nhw'n pysgota rhwng y llithrfa yng Nghaerfyrddin a **Phont Wrthbwys y Rheilffordd**, pellter o 900-1000 llath.

Dim ond ar **ddyddiau'r wythnos** maen nhw'n pysgota a dim ond yn y **nos** yn llwyddiannus. Nid yw'n bosibl pysgota'r afon pan fo llanw uchel dros **7.5 metr** gan fod hynny'n tarfu ar y llaid a'r afon yn troi'n fath mwdlyd na wnaiff pysgod nofio ynddo.

Roedd gan lawer o gyryglwyr lysenwau hefyd: Lewis Hard Up, Billy Boy Brown, Dai Martha, Llew Sara, Billy Boy Peg.

[Bywyd a diwylliant – cynnwys pellach]

[Bywyd Cwrwgl Caerfyrddin – fideos hanes llafer]

## 7. Mythau a chwedlau



Bydd y cyryglwyr yn pysgota yn ystod y **Clyfwchwr**. Dyma'r amser rhwng y gwyll a'r wawr, rhwng 10pm a 5am fel arfer Yn y llun mae'r ddau gwrwgl yn aros i'r llanw droi.

Fe fyddan nhw'n gwybod pryd yw'r adeg iawn, sef pan fo lefel y dŵr wedi cyrraedd y **bedwaredd ris ar ddeg.** Bydd y dynion yn disgwyl am y saith seren i roi digon o olau iddyn nhw bysgota gobeithio.

Mae **traddodiad** yn dweud wrthym ni fod arfer cyryglwyr o ddisgwyl am saith seren yn yr awyr yn gysylltiedig â chwedl Arthur a **Myrddin**. Roedd y dewin yn credu mai'r saith seren oedd y saith milwr a fyddai'n dychwelyd o Frwydr **Camlan.** Mae rhai teuluoedd cyryglau'n credu mai yng Nghamlan mae castell Camelod.

Brwydr ffyrnig oedd Camlan a ddigwyddodd yng nghyffiniau Dolgellau. Mae'n debyg i'r **Brenin Arthur** a'i elyn drygionus, Medrawd farw yn y frwydr.

Mythau a chwedlau – cynnwys pellach

## 8. Teuluoedd o gyryglwyr



Gellir olrhain teuluoedd o gyryglwyr yn ôl gannoedd o flynyddoedd. Nhw yw asgwrn cefn masnach pysgota cwrwgl yng Nghaerfyrddin.

Y teulu Elias (yn y llun uchod) yw'r teulu o gyryglwyr sydd wedi bod wrthi hiraf ar yr Afon Tywi. Mae cofnodion swyddogol yn dangos mai dyna brif alwedigaeth y teulu Elias ym 1766 ac mae'n debyg ei fod yn mynd yn ôl ymhellach na hynny. Y rhyfeddod yw bod y traddodiad hwn wedi'i drosglwyddo drwy 7 cenhedlaeth. Gellir gweld y teulu Elias yn pysgota cwrwgl o hyd ar yr afon Tywi wrth iddyn nhw geisio gwarchod y traddodiad hynafol hwn.

Enillodd William Elias, a anwyd ym 1876, **Fedal yr Ymerodraeth Brydeinig** am ei wasanaethau i bysgota cwrwgl ac roedd yn benderfynol o drosglwyddo ei wybodaeth i'w wyrion, Raymond a Brian Rees. Daeth Raymond a Brian yn fedrus iawn wrth bysgota, adeiladu a rasio cyryglau. Yn 2011, dyfarnwyd MBE i Raymond gan y Frenhines am wasanaethau i **Dreftadaeth Cyryglau a Physgota Dŵr Mewndirol yng Nghymru.**

Heddiw, gan gadw'r traddodiad yn fyw, mae'r teulu Elias yn dal i bysgota'r Afon Tywi ac yn gwneud cyryglau yn **Dan-y-banc.** Mae mab Raymond, Malcolm, yn pysgota gyda Dai Elias. Keith Elias a Joe Woodhead yw cenhedlaeth ieuengaf pysgotwyr cwrwgl y teulu Elias yn awr.

Teuluoedd o gyryglwyr – cynnwys pellach

## 9. Straeon cyryglau




Mae yna straeon amrywiol yn sôn am fywyd cyryglau yng Nghaerfyrddin.

Mae un yn adrodd hanes terfysgoedd Beca ym 1843. Roedd cyryglwyr Caerfyrddin ar flaen y gad ym mhob terfysg yn y dref, nhw oedd yn rheoli **'Mob Caerfyrddin'.**

Nhw oedd yr arweinwyr yn erbyn Wyrcws Caerfyrddin ar Heol Penlan. Achubwyd yr adeilad rhag cael ei losgi i'r llawr gan y 4ydd Marchfilwyr Ysgafn yn carlamu ar hyd Teras Waterloo ar eu ceffylau yn chwifio eu cleddyfau ac anafu llawer o'r terfysgwyr. Daeth hyn â'r terfysg i ben. Cafodd llawer o'r terfysgwyr eu halltudio neu eu carcharu gan ynadon**.**

Carcharwyd John Lewis, cyryglwr yn ei arddegau o Dan-y-banc am wyth mis yng Ngharchar Caerfyrddin. Roedd ei gosb yn cynnwys 8 awr ar y felin draed erchyll bob dydd. Ond nid oedd rhaid iddyn nhw wneud llafur caled ar ddydd Nadolig na Gwener y Groglith. Fodd bynnag byddai wedi gallu cael ei alltudio i Awstralia'n hawdd.

Mae stori arall yn sôn am draddodiad a ddechreuodd ymhell yn ôl tua diwedd yr 1800au. Roedd y Parchedig Latimer Maurice Jones yn Ficer Eglwys San Pedr Caerfyrddin rhwng 1863-78. Roedd yn weithgar gyda chymdeithasau gwahanol yn y dref ac ef a sefydlodd Ysbyty Heol y Prior.

Y gymuned cyryglwyr oedd tlodion y dref ac roedden nhw'n gofyn am gymorth gan yr eglwys pan na fydden nhw'n gallu fforddio'r cynnydd yng nghost y drwydded rhwyd. Cytunodd yr Eglwys i helpu'r cyryglwyr dalu am eu trwydded gan mai dyma'r unig ffordd y gallai teuluoedd pysgota mawr ardal Dan-y-banc oroesi.




Yr unig ffordd y gallai'r teuluoedd o gyryglwyr ddangos eu gwerthfawrogiad i'r Eglwys oedd rhodd o bysgodyn bob blwyddyn. Mae cyryglwyr wedi rhoi pysgodyn i ficer Eglwys San Pedr fel arwydd o'u diolch ers hynny: sewin cynta'r tymor!

*Malcolm Rees yn rhoi Sewin o'r Afon Tywi i'r Parchedig Ganon Leigh Richardson o Eglwys San Pedr ar ran Cymdeithas Cyryglau a Physgotwyr Rhwydi Caerfyrddin.*

[Straeon cyryglau – cynnwys pellach]

## 10. Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Gaerfyrddin

Mae'n drist bod Caerfyrddin wedi colli pobl ifanc mewn damweiniau ar yr afon dros y blynyddoedd. Yn draddodiadol, roedd pysgotwyr cwrwgl yn cymryd rhan yn y gwaith chwilio ac achub pan oedd pobl yn mynd i drafferth ar yr afon.




Mae elusen newydd, Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Gaerfyrddin, wedi'i sefydlu i wneud plant yn ymwybodol o beryglon dyfrffyrdd ac i addysgu'r cyhoedd. Maen nhw'n rheoli cyfarpar achub bywyd ar ein dyfrffyrdd cymunedol ac yn cyhoeddi dogfennau sy'n hyrwyddo diogelwch dŵr sy'n cael eu dosbarthu i ysgolion a sefydliadau eraill.

Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Gaerfyrddin – cynnwys pellach